

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir)
i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg
Nant), Ynys Môn) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2018**

**The A55 Trunk Road (Junction 4
(Dalar Hir Interchange) to Junction
6 (Nant Turnpike Interchange), Isle
of Anglesey) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2018**

Gwnaed 18 Medi 2018

Made 18 September 2018

Yn dod i rym 24 Medi 2018

Coming into force 24 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 24 Medi 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to Junction 6 (Nant Turnpike Interchange), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 24 September 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 24 Medi 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A55 London to Holyhead Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaerdybi.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 9, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 9, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn lôn allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

9. Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 24 September 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle on either the eastbound or westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

5.—(1) Whilst movement of traffic is by article 4 prohibited in the eastbound carriageway but, pursuant to article 9, not prohibited in the westbound carriageway, no person shall drive any vehicle in the offside lane of the westbound carriageway of the trunk road in any direction other than eastwards.

(2) Whilst movement of traffic is by article 4 prohibited in the westbound carriageway but, pursuant to article 9, not prohibited in the eastbound carriageway, no person shall drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway of the trunk road in any direction other than westwards.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

8. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

Application

9. The prohibitions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 12 months.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Medi 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

18 September 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 450 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa'r A4080/Treban).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant).

ATODLEN 2

Gwrthlif & Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro (dros 3.2 metr)

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 750 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa'r A4080/Treban).

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians

The length of the trunk road that extends from a point 320 metres west of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 450 metres east of Junction 6 (Nant Turnpike Interchange).

The lengths of the westbound exit and eastbound entry slip roads at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).

The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 5 (A4080/Treban Interchange).

The lengths of the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 6 (Nant Turnpike Interchange).

SCHEDULE 2

Contraflow & Temporary Prohibition of Wide Vehicles (over 3.2 metres)

The length of the trunk road that extends from a point 800 metres east of the centre-point of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 750 metres east of the centre-point of Junction 5 (A4080/Treban Interchange).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 4 (CYFNEWIDFA DALAR HIR) I
GYFFORDD 6 (CYFNEWIDFA TYRPEG NANT),
YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU,
BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) a Chyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Ynys Môn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dilynol, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 24 Medi 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol hyd 05:00 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2018, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gwahardd pob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar hyd y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae angen gwneud hyn at ddibenion rheoli traffig a'r gwaith o osod wyneb newydd ac mae'n cynnwys cau naill ai cerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin yr A55 dros nos. Disgwylir i hyn ddigwydd ar sawl achlysur ond yn bennaf rhwng 5 – 19 Tachwedd 2018 a chodir arwyddion rhybudd ymlaen llaw er mwyn hysbysu'r cyhoedd am gau'r ffordd. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.
- ii. cau naill ai cerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn lôn allanol pa un bynnag o'r cerbyttffyrdd sy'n aros ar agor i draffig.
- iii. gwahardd pob cerbyd dros 3.2 metr o led rhag mynd ar y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2 rhwng 15:30 a 09:30 o'r gloch. Rhwng 09:30 a 15:30 o'r gloch o Ddydd Llun i Ddydd Gwener caiff unrhyw gerbydau llydan eu hebrwng drwy'r safle gwaith gan y Cwmni Rheoli Llwythi Annormal. Yn ystod yr oriau gwaharddedig, bydd arwyddion yn cynghori cerbydau o'r fath i barcio mewn cilfan ddynodedig.
- iv. gwahardd pob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir ym mharagraff rhif 3 o Atodlen 1 tra bod y gwrthlif yn weithredol. Ni fydd y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar gau ar yr un pryd.

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 4 (DALAR
HIR INTERCHANGE) TO JUNCTION 6 (NANT
TURNPIKE INTERCHANGE), ISLE OF
ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 4 (Dalar Hir Interchange) and Junction 6 (Nant Turnpike Interchange), Anglesey.

It is expected that the following prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force at 20:00 hours on 24 September 2018 and operate intermittently until 05:00 hours on 19 November 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 described in Schedule 1 to this Notice. This is needed for traffic management and resurfacing purposes and involves overnight closures of either the eastbound or westbound carriageway of the A55. It is expected that this will occur on a number of occasions but mostly between 5 – 19 November 2018 and advance warning signs will be displayed to notify the public of all closures. The alternative route arrangements are also described in the Schedule.
- ii. Close either the eastbound or westbound carriageway of the length of the A55 described in Schedule 2 to this Notice. Contra-flow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic.
- iii. Prohibit all vehicles over 3.2 metres wide from proceeding on the length of the A55 described in Schedule 2 between 15:30 and 09:30 hours. From 09:30 to 15:30 hours Monday to Friday any wide vehicles will be escorted through the works site by the Abnormal Load Management Company. During the prohibited hours, signs will advise such vehicles to park up at a designated lay-by.
- iv. Prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 described in paragraph no.3 of Schedule 1 whilst contraflow is in operation. Eastbound and westbound slip roads will not be closed simultaneously.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno ymadael â'r A55 wrth Gyffordd 5 fydd parhau hyd at Gyffordd 4 neu Gyffordd 6, ymadael yno a dychwelyd ar hyd y gerbyttffordd gyferbyn i ymadael wrth Gyffordd 5.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 5 fydd ymuno â'r gerbyttffordd gyferbyn, parhau hyd at Gyffordd 6 neu Gyffordd 4, ymadael yno a dychwelyd ar hyd y gerbyttffordd tua'r gorllewin/dwyrain.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserru'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael eu harddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserru.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 4 (Cyfnwidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 450 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 6 (Cyfnwidfa T yrpeg Nant).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 4 fydd mynd ar yr A5 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 6: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 6.

Yn ystod y gwaith o osod wyneb newydd dim ond rhwng 2 gyffordd olynol bydd y ffordd ar gau a'r

The alternative route for traffic wishing to leave the A55 at Junction 5 is to continue to Junction 4 or Junction 6, exit and return on the opposite carriageway to leave at Junction 5.

The alternative route for traffic wishing to join the A55 at Junction 5 is to join the opposite carriageway, proceed to Junction 6 or Junction 4, exit and return on the westbound/eastbound carriageway.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians

1. The length of the trunk road that extends from a point 320 metres west of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 450 metres east of Junction 6 (Nant Turnpike Interchange).

The alternative route for eastbound traffic from Junction 4 is via the eastbound A5 to rejoin the A55 at Junction 6: vice versa for westbound traffic from Junction 6.

During the resurfacing works the road will only be closed between 2 consecutive junctions and the

llwybr arall o Gyffyrdd 4, 5 neu 6 fydd mynd ar yr A5 tua'r dwyrain/gorllewin i ailymuno â'r A55 wrth y gyffordd nesa.

2. Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

3. Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa'r A4080/Treban).

4. Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant).

Y llwybrau eraill fydd mynd ar yr A55 tua'r dwyrain ac ar hyd yr A5 tua'r dwyrain/gorllewin, yn ôl yr angen.

ATODLEN 2

Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro (dros 3.2 metr)

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 750 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa'r A4080/Treban).

alternative route from Junctions 4, 5 or 6 is via the east/westbound A5 to rejoin the A55 at the next junction.

2. The lengths of the westbound exit and eastbound entry slip roads at Junction 4 (Dalar Hir Interchange).

3. The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 5 (A4080/Treban Interchange).

4. The lengths of the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 6 (Nant Turnpike Interchange).

The alternative routes will be via the eastbound A55 and via the eastbound/westbound A5, as appropriate.

SCHEDULE 2

Contraflow & Temporary Prohibition of Wide Vehicles (over 3.2 metres)

The length of the trunk road that extends from a point 800 metres east of the centre-point of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 750 metres east of the centre-point of Junction 5 (A4080/Treban Interchange).